Cofnodion **CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 16 Hydref 2024, am 6.00pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, W. Price, Ms R. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 56. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Gwnaeth Caplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah MSP, arwain pawb a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Miss S. Fleming a Mrs D. L. King.

## 57. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor a'i bwyllgorau fel a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 18 Medi 2024 - Cofnodion rhifau 50-55

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 18 Medi 2024 - Cofnodion rhifau 16-19

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd M. Blackwell a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 2 Hydref 2024 - Cofnodion rhifau 20-22

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd S. Feeney a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 2 Hydref 2024 - Cofnodion rhifau 41-50

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a chadarnhau eu gweithredu.*

**58. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyfarfodydd Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**59. CYFLWYNIAD: HAMDDEN SIR DDINBYCH CYFYNGEDIG – CALENDR DIGWYDDIADAU 2025**

Croesawodd y Maer Mr Jamie Groves a Mr Gwyn Hughes o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i'r cyfarfod, a'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau mewn cyfrinachedd ynghylch y digwyddiadau maent yn eu trefnu ar ran Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref y Rhyl, yn benodol y Sioe Awyr, Penwythnos Hwyl yr Haf a digwyddiad goleuo'r goleuadau Nadolig a'r Pops Nadolig.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn trefnu cyfarfod arbennig ym mis Tachwedd yn dilyn cyfarfod Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig gyda Chyngor Sir Ddinbych ddiwedd mis Hydref, i drafod y digwyddiadau mae'r Cyngor Tref yn cyfrannu atynt yn fanylach gan ystyried y ddarpariaeth y flwyddyn nesaf.*

**60. SESIWN AGORED**

Parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**61. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at y cyngerdd 'Work in Progress' yn Ninbych yr oedd yn ddiolchgar iawn ei bod wedi cael gwahoddiad iddo.

Crybwyllodd y Dirprwy Faer Wasanaeth Dinesig Cyngor Tref Treffynnon, a fwynhaodd yn fawr iawn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad*.

**62. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb Rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1906 | Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig | Arlwyo yn dilyn gwasanaeth Sul y Cofio | 810.00 |
| 1907 | BJS Solutions | Adnewyddu 5 uned UPS | 636.00 |
| 1908 | Twristiaeth Gogledd Cymru | Cyfraniad i Ganolfan Groeso'r Rhyl | 8,100.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1909 | BJS Solutions | Adnewyddu'r meddalwedd gwrth-firws | 359.88 |
| 1910 | Sandra Williams | Costau cyfieithu | 415.99 |
| 1911 | Elusen Maer Rhuddlan | Dau docyn i ddigwyddiad elusennol ar 23 Tachwedd 2024 | 50.00 |
| 1912 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cinio i ddau gynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod ar 18 Hydref 2024 | 24.00 |
| 1913 | Pwyllgor Lles Gorsaf Dân y Rhyl | Cyfraniad tuag at y Goelcerch a'r Arddangosfa Tân Gwyllt 2024 | 5,000.00 |
| 1914 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres – Chwarter 2 2024/25 | 108.00 |
| | **Cyfanswm taliadau Atodlen B** | | **£15,503.87** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**63. DATGANIAD BLYNYDDOL 2023/24 – CASGLIAD YR ARCHWILIAD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad a dogfen Datganiad Blynyddol archwilieidig y Cyngor (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a'i fod yn falch o adrodd y cafwyd adroddiad diamod, i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiad Blynyddol 2023/24.*

**64. DATGANIADAU ARIANNOL BLYNYDDOL 2023/24**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid ac at y Datganiadau Ariannol Blynyddol a baratowyd (Cyfrifon Terfynol) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), i'r aelodau eu cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiadau Ariannol 2023/24.*

**65. COD YMDDYGIAD – HYFFORDDIANT I AELODAU**

Hysbysodd Clerc y Dref am sesiynau hyfforddiant a oedd yn cael eu darparu gan Gyngor Sir Ddinbych ac atgoffodd yr aelodau fod rhaid iddynt fynd i o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

**66. EITEM GAN AELOD: CAU'R MAES PARCIO CANOLOG (TANDDAEAROL)**

Gofynnodd y Cynghorydd A. J. Rutherford am gefnogaeth yr aelodau i wahodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i esbonio pam na fu ymgynghori gyda Chyngor Tref y Rhyl ynghylch y cynnig i gau'r maes parcio, na'i hysbysu am y bwriad i gau cyn cyhoeddi hynny i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Rutherford fod hyn yn bryderus iawn ar adeg pan oedd gofyn i'r Cyngor Tref wneud cyfraniadau ariannol sylweddol i gadw

rhai gwasanaethau cyhoeddus yn weithredol, gyda'r nod o barhau i ddenu pobl i ganol y dref.

Mynegodd y Cynghorwyr eu siom, gan gyfeirio at benderfyniad Cyngor Sir Ddinbych i osod peiriannau talu am barcio ym maes parcio'r Marine Lake yn ddiweddar, eto heb ymgynghori â'r Cyngor Tref.

Roedd y Cynghorwyr o'r farn nad oedd egwyddorion y Siarter a luniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ac a lofnodwyd gan y ddau gyngor yn cael eu dilyn.

Awgrymodd aelod godi'r mater yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyfeirio Lleol y Rhyl ar 23 Hydref.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn gwahodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, neu uwch swydd perthnasol, i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol, a gofyn am gyflwyno'r rhesymeg dros gau'r mae'r parcio i'r Cyngor Tref cyn dod i'r cyfarfod.*

## 67. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyfarfodydd Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 68. ADNEWYDDU YSWIRIANT 2023-2024

Ymhellach i'r Cyngor gytuno ar newid dyddiad adnewyddu yswiriant y Cyngor o 1 Mehefin i 1 Tachwedd, cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), sef yr adroddiad arferol i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 69. PROTOCOL CYFARFODYDD

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod heno yn dilyn teimlad cyffredinol ymhlith yr aelodau, trwy sylwadau i gadeiryddion cyfarfodydd, fod safonau wedi llithro rhywfaint mewn cyfarfodydd hybrid.

Teimlai'r Cynghorydd A. J. Rutherford, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol, y dylai'r safonau a oedd yn weithredol mewn cyfarfodydd cyn Covid gael eu cynnal i sicrhau lefel o broffesiynoldeb mewn cyfarfodydd.

***PENDERFYNWYD*** *y bydd Clerc y Dref yn cynnwys ymddygiad mewn cyfarfodydd yn adolygiad/diweddariadd nesaf Rheolau Sefydlog y Cyngor, ac ychwanegu eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod ynghylch pwysigrwydd aelodau'n datgan buddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu ar ddechrau'r cyfarfod.*

## 70. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..